# Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

## Cyngor Sir Caerfyrddin

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cymeradwyo: | 18 Medi 2024 |
| Cymeradwywyd gan: | Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol |
| Dyddiad Adolygu: | Medi 2027 |

**Mae cyfrifoldeb ar reolwyr i sicrhau bod POB aelod o staff yn gallu cyrchu'r ddogfen hon.**



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


Datganiad Cyffredinol o Fwriad ........ 4

Trefniadaeth Sefydliadol ........ 5

1.3. Aelodau'r Cabinet ........ 5

2. SWYDDOGION ........ 6

2.1. Prif Weithredwr ........ 6

2.2. Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) ........ 6

2.3. Cyfarwyddwyr ........ 7

2.4. Penaethiaid Gwasanaeth ........ 8

2.5. 'Cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch' - Pennaeth Gwasanaeth Enwebedig ........ 8

2.6. Uwch-reolwyr, Rheolwyr Llinell, Arweinyddion Tîm a Goruchwylwyr ........ 9

2.7. Gweithwyr ........ 10

2.8. Cynrychiolwyr Diogelwch ........ 10

3. CYFRIFOLDEBAU MEWN YSGOLION ........ 12

3.1. Llywodraethwyr Ysgol ........ 12

3.2. Penaethiaid ........ 12

3.3. Penaethiaid Adran ........ 13

3.4. Gweithwyr (Staff Addysgu a Staff Arall) ........ 14

4. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL ........ 16

4.1. Cyfrifoldebau sy'n Gysylltiedig ag Eiddo ........ 16

4.2. Rheoli Risg ........ 17

4.3. Caffael Corfforaethol ........ 17

4.4. Rheoli Fflyd ........ 17

4.5. Cynllunio Argyfwng / Dilyniant Busnes / Argyfyngau Sifil ........ 17

4.6 Unigolion sy'n Gyfrifol am Safle ........ 18

5. SWYDDOGAETHAU CYMORTH IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT ........ 18

5.1. Rheolwr Llesiant Gweithwyr ........ 18

5.2. Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch) ........ 19

5.3. Uwch-ymgynghorwyr/Ymgynghorwyr Strategol (Iechyd a Diogelwch) ........ 19

5.4. Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch ........ 20

5.5. Uwch-bartner Busnes (Gweithio'n Ddiogel) ........ 21

5.6. Hyfforddwyr Codi a Chario a Hyfforddwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ........ 21

5.7. Canolfan Iechyd Galwedigaethol ........ 21

5.8. Cydlynwyr Iechyd a Llesiant ........ 22

6. CYFRIFOLDEBAU'R RHAI NAD YDYNT YN GYFLOGEDIG ........ 22

6.1. Gwirfoddolwyr ........ 22

6.2. Unigolion sydd ar brofiad neu leoliad gwaith ........ 22

6.3. Contractwyr, Gweithwyr Asiantaeth a Gweithwyr Partneriaeth ..................... 22
7. CYFRIFOLDEBAU AR Y CYD ........................................................................................ 23
7.1. Cabinet ........................................................................................................ 23
7.2. Y Tîm Rheoli Corfforaethol ........................................................................ 23
7.3. Timau Rheoli Adrannol ............................................................................... 23
7.4. Cyfarfodydd / Grwpiau Strwythuredig ........................................................ 24
8 CYFATHREBU AC YMGYNGHORI ................................................................................ 24
8.1. Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ....................................... 24
8.2. Fforymau Cysylltiadau â Gweithwyr - Iechyd a Diogelwch .......................... 25
8.3. Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Adrannol .................................................. 25
8.4. Grwpiau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth-Benodol neu ar Lefel Leol .............. 26
9 GWYBODAETH YCHWANEGOL ................................................................................... 26
10. CYFATHREBU AC YMGYNGHORI .............................................................................. 27

## Datganiad Cyffredinol o Fwriad

**Mae'r Cyngor yn cydnabod bod rheoli iechyd, diogelwch a llesiant yn dda yn bwysig wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Cyngor Sir Caerfyrddin.**

Rydym yn ymroddedig i ddarparu a chynnal amgylchedd gwaith iach a diogel i'n holl weithwyr a sicrhau nad yw ein gwaith yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch a llesiant pobl eraill megis Aelodau Etholedig, defnyddwyr gwasanaethau, ymwelwyr a chontractwyr. Ein gweithwyr yw ein hased bwysicaf ac fe fyddwn felly yn ceisio nid yn unig eu hatal rhag cael dolur neu salwch, ond hefyd hyrwyddo mewn modd cadarnhaol eu hiechyd da a'u lles. I gyflawni hyn bydd y Cyngor yn:

- Sicrhau ein bod, fel isafswm, yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r safonau rheoli perthnasol ac y byddwn yn rheoli'n effeithiol bob risg sylweddol sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau, llefydd gwaith, cyfarpar a chyfleusterau,
- Cydnabod bod rheoli iechyd a diogelwch yn swyddogaeth reoli graidd a chyn bwysiced ag unrhyw agwedd arall o berfformiad ein busnes,
- Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol, gyda rheolwyr i'w gweld yn dangos eu hymrwymiad i gyrraedd safon uchel o iechyd, diogelwch a rheoli risg, yn unol â'n bwriad o fod yn gyflogwr da a gofalgar,
- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau ar gyfer darparu ein trefniadau o ran rheoli risg, iechyd a diogelwch wedi eu diffinio a'u cyfathrebu'n glir, a bod llwyddiant y ddarpariaeth yn cael ei fonitro trwy ein gweithdrefnau rheoli perfformiad ac arfarnu,
- Darparu adnoddau digonol, yn gymesur â lefel y risg, i sicrhau y rhoddir y polisi hwn a'n trefniadau rheoli cysylltiedig ar waith yn effeithiol,
- Sicrhau bod ein holl weithwyr yn gymwys i wneud eu gwaith heb fod yna risg iddyn nhw eu hunain nac i eraill, trwy ddarparu hyfforddiant, gwybodaeth a goruchwyliaeth ddigonol,
- Hyrwyddo cynnwys staff yn effeithiol a chefnogi rôl cynrychiolwyr diogelwch wrth roi ein trefniadau rheoli risg, iechyd a diogelwch ar waith,
- Dysgu wrth unrhyw ddamweiniau, digwyddiadau peryglus neu salwch sy'n gysylltiedig â gwaith, a monitro, arolygu a pharatoi adroddiadau rheolaidd ar berfformiad iechyd, diogelwch a llesiant. Byddwn yn datblygu cynlluniau gwella i'n cynorthwyo i wella'n perfformiad yn barhaus,
- Monitro iechyd ein gweithwyr, lle mae hynny'n addas, a darparu gwasanaethau cymorth iechyd galwedigaethol effeithiol ar eu cyfer,
- Sicrhau bod ein partneriaid, ein cyflenwyr a chontractwyr a gyflogir i weithio gyda ni yn gymwys a'u bod yn gwneud eu gwaith mewn ffordd nad yw'n eu peryglu nhw'u hunain na'n staff, defnyddwyr gwasanaeth nac aelodau o'r cyhoedd, o ran iechyd, diogelwch a llesiant.

**Mae gan bob rheolwr trwy'r sefydliad cyfan gyfrifoldeb i roi'r polisi hwn ar waith.**

Fodd bynnag, mae gan bob gweithiwr ran i'w chwarae o ran darparu'n gwasanaethau yn ddiogel ac yn llwyddiannus.

Caiff y polisi hwn ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y galw, a phob 3 blynedd fan bellaf.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd: | Llofnodwyd: |
| Wendy Walters | Y Cyng. Darren Price |
| Prif Weithredwr | Arweinydd y Cyngor |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Trefniadaeth Sefydliadol

I sicrhau trefniadau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant effeithiol, mae'n rhaid i bawb ddeall beth yw eu rhan nhw wrth reoli'r peryglon sy'n codi yn sgil y gwaith rydym yn ei wneud. Mae hi'n bwysig felly bod rolau a chyfrifoldebau ar bob lefel o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael eu diffinio'n glir a'u deall.

Amlinella'r rhan yma rolau a chyfrifoldebau cyffredinol unigolion a fforymau. Gwelir rolau a chyfrifoldebau ychwanegol mewn gweithdrefnau iechyd a diogelwch atodol sy'n ymdrin â pheryglon penodol.

## 1. AELODAU

### 1.1 Aelodau Etholedig

Bydd aelodau etholedig yn:

1.1.1. Sicrhau bod eu holl benderfyniadau a'u gweithrediadau yn gyson â hyrwyddo iechyd a diogelwch fel y dywedwyd yn y polisi hwn.

1.1.2. Rhoi ystyriaeth ddyladwy i faterion iechyd, diogelwch a llesiant wrth ddatblygu holl bolisïau a strategaethau Cyngor Sir Caerfyrddin.

1.1.3. Hybu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol trwy ddangos ymrwymiad pendant i gyrraedd safon uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch a thrwy annog cynnwys pob gweithiwr yn y broses o wella'n safonau a'n trefniadau rheoli.

### 1.2. Aelod o'r Cabinet a enwebwyd (Deiliad Portffolio Rheoli Pobl) – Iechyd, Diogelwch a Llesiant.

Bydd yr aelod enwebedig etholedig yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant a gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr bydd yn:

1.2.1. Rhoi gwybod i'r Cabinet am faterion iechyd a diogelwch strategol perthnasol.

1.2.2. Cefnogi ac yn hyrwyddo datblygu trefniadau a mentrau iechyd a diogelwch i sicrhau y cânt eu rhoi ar waith o fewn ein sefydliad.

1.2.3. Mynychu'r Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

1.2.4. Mynychu'r Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol - Cysylltiadau â Gweithwyr yn rheolaidd.

### 1.3. Aelodau'r Cabinet

Bydd Aelodau'r Cabinet, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwyr perthnasol, yn:

1.3.1. Herio, cefnogi, monitro a hyrwyddo datblygiad a pherfformiad trefniadau a mentrau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant yn y meysydd y mae ganddynt gyfrifoldebau drostynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn ein sefydliad.

## 2. SWYDDOGION

### 2.1. Prif Weithredwr

O dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, y Prif Weithredwr ar ddiwedd y dydd sydd â chyfrifoldeb rheoli dros iechyd, diogelwch a llesiant o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin. Yn ogystal â chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel rhan o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, bydd yn:

2.1.1. Hybu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol trwy ddangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad pendant i gyrraedd safonau uchel o ran rheoli iechyd, diogelwch a llesiant a thrwy annog cynnwys pob gweithiwr yn y broses o wella'n safonau a'n trefniadau rheoli.

2.1.2. Sefydlu a sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a threfniadau rheoli iechyd a diogelwch yn cael eu cyflawni'n effeithiol o fewn yr awdurdod.

2.1.3. Sicrhau bod yna adnoddau digonol, yn gymesur â lefel y risg, ar gael i weithredu'r polisi hwn yn effeithiol ac unrhyw drefniadau rheoli sy'n gysylltiedig ag ef yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys cynnal a chadw ein hadeiladau, cyfleusterau a chyfarpar a chyflenwi hyfforddiant digonol i'n gweithwyr.

2.1.4. Sicrhau bod rheoli iechyd a diogelwch yn rhan annatod o gynlluniau rheoli a strategaethau'r Cyngor a'n bod ni'n cyflawni'n gweithgareddau mewn modd sydd yn cydymffurfio'n gyfan gwbl â'r safonau cyfreithiol perthnasol ac yn gyson â'r arferion gorau.

2.1.5 Sicrhau bod perfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

2.1.6. Cadw'i hun yn hyddysg o ran gofynion cyffredinol ac unrhyw ddatblygiadau ym maes deddfwriaeth ac arferion gorau.

### 2.2. Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)

Rhoddwyd i'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) gyfrifoldeb arbennig dros reoli iechyd, diogelwch a llesiant strategol o fewn Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd yn:

2.2.1. Hybu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol trwy ddangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad clir i gyrraedd safonau uchel o ran rheoli iechyd, diogelwch a llesiant ledled yr awdurdod.

2.2.2. Gweithio fel eiriolwr dros reoli iechyd a diogelwch o fewn yr awdurdod ac ar y Tîm Rheoli Corfforaethol a bod yn gefn i'r Prif Weithredwr wrth fodloni'r cyfrifoldebau a nodwyd o fewn y polisi hwn.

2.2.3. Hyrwyddo a chyflwyno polisïau iechyd a diogelwch a gwybodaeth am berfformiad iechyd, diogelwch a llesiant yn y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet.

2.2.4. Sicrhau bod adnoddau digonol a chymwys ar gael, o fewn Llesiant Gweithwyr (sy'n gymesur â lefel y risg) er mwyn rhoi'r polisi hwn a'r trefniadau rheoli cysylltiol ar waith yn effeithiol.

2.2.5. Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar berfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei baratoi er mwyn cael ei ystyried gan yr awdurdod.

2.2.6. Sicrhau bod adnoddau cymwys yn cael eu darparu i gefnogi trefniadau effeithiol ar gyfer monitro a goruchwylio iechyd cyflogeion sy'n agored i risgiau penodol.

2.2.7. Sicrhau bod rheoli iechyd a diogelwch yn rhan ganolog o'r holl gynlluniau rheoli, strategaethau a gweithgareddau'r Cyngor, a rhoddir ystyriaeth ddyledus iddynt wrth hyrwyddo unrhyw bolisïau a strategaethau, ac wrth ddynodi cyfrifoldebau ac adnoddau cysylltiedig.

2.2.8. Sicrhau yr ymgynghorir â'r Fforwm Iechyd a Diogelwch Corfforaethol - Cysylltiadau â'r Gweithwyr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant perthnasol.

2.2.9. Cadeirio'r Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

### 2.3. Cyfarwyddwyr

Y Cyfarwyddwyr sy’n gyfrifol drwyddi draw am weithrediad y polisi hwn a’r trefniadau rheoli cysylltiedig yn eu hadran. I'w cynorthwyo i gyflawni eu cyfrifoldebau, bydd y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn cefnogi Cyfarwyddwyr. Yn ogystal â’u cyfrifoldebau fel rheolwyr llinell, bydd y Cyfarwyddwyr yn:

2.3.1. Hybu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol trwy ddangos arweinyddiaeth ac ymrwymiad clir i gyrraedd safonau uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch ledled eu hadrannau.

2.3.2. Sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn rhan annatod o’r trefniadau rheoli adrannol a bod amcanion iechyd a diogelwch wedi eu cynnwys yn y Cynllun Busnes Adrannol.

2.3.3. Sicrhau y darperir adnoddau addas, o ran amser, cyllid a phersonél, er mwyn rhoi ar waith y gweithdrefnau a'r trefniadau iechyd a diogelwch o fewn eu hadrannau.

2.3.4. Sefydlu trefniadau i fonitro effeithiolrwydd rheoli iechyd a diogelwch a'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion iechyd, diogelwch a llesiant a nodir yn y cynllun busnes adrannol.

2.3.5. Sicrhau bod perfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei drafod, ei rannu a'i adolygu'n rheolaidd gyda phob Pennaeth Gwasanaeth.

2.3.6. Sicrhau bod yr Uwch-ymgynghorydd/Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Diogelwch) yn mynychu'r Tîm Rheoli Adrannol yn rheolaidd.

2.3.7. Enwebu Pennaeth Gwasanaeth yn gynrychiolydd ar gyfer yr Adran ar y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a'i awdurdodi i wneud penderfyniadau strategol ar ran yr Adran.

2.3.8. Enwebu Pennaeth Gwasanaeth yn ddirprwy gynrychiolydd ar gyfer yr Adran ar y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn mynychu'r cyfarfodydd yn absenoldeb y Pennaeth Gwasanaeth.

2.3.9. Cadeirio Fforwm Iechyd a Diogelwch Adrannol - Cysylltiadau â Gweithwyr pan fo perfformiad iechyd, diogelwch a llesiant yn cael ei adolygu.

2.3.10. Sicrhau bod Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle a Dirprwy Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle yn cael eu henwebu ar gyfer bob safle sy'n eiddo i'r adran, a hynny mewn cydgysylltiad â'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, gan roi gwybod yn brydlon i'r Is-adran Eiddo am unrhyw newidiadau.

2.3.11. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth ddigonol i’w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd effeithiol.

2.3.12. Cadw’u hunain yn hyddysg o ran anghenion cyffredinol deddfwriaeth iechyd, diogelwch a llesiant a safonau sy’n berthnasol i’r gweithleoedd a’r gweithgareddau sydd o dan eu cyfrifoldeb nhw, a hynny mewn cysylltiad â’r Uwch-ymgynghorydd/Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Diogelwch).

2.3.13. Sicrhau bod gweithwyr yn cael copi o'r polisi hwn a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu a'u cyfarwyddo'n briodol ar rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

### 2.4. Penaethiaid Gwasanaeth

Mae Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu gweithdrefnau iechyd, diogelwch a llesiant a threfniadau rheoli yn eu meysydd cyfrifoldeb. Yn ogystal â'u cyfrifoldebau fel rheolwyr llinell, byddant yn:

2.4.1. Dangos ymrwymiad clir i gyflawni safonau uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch drwy arweinyddiaeth gadarnhaol ar faterion iechyd a diogelwch.

2.4.2. Sicrhau bod y risgiau yn y meysydd y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt yn cael eu nodi, eu rheoli a'u monitro.

2.4.3. Adolygu'n rheolaidd perfformiad iechyd, diogelwch a llesiant yn y meysydd y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt gan roi gwybod i'r Cyfarwyddwr am y perfformiad.

2.4.4. Sicrhau bod adnoddau digonol, sy'n gymesur â lefel y risg, yn cael eu darparu i weithredu gweithdrefnau iechyd a diogelwch, trefniadau rheoli a mesurau rheoli.

2.4.5. Sicrhau presenoldeb rheolaidd o ran iechyd a diogelwch yn ystod cyfarfodydd tîm yr Uwch-reolwyr/Rheoli Busnes.

2.4.6. Ar y cyd â'r Cyfarwyddwr, enwebu Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle a Dirprwy Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle ar gyfer pob safle.

2.4.7. Sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithio o fewn y maes y mae ganddynt gyfrifoldeb drosto yn derbyn hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth ddigonol i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u gwaith yn ddiogel.

2.4.8. Sicrhau bod pob damwain, salwch wedi ei achosi gan waith, a digwyddiadau peryglus yn cael eu cofnodi ac yr ymchwilir iddynt yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol.

2.4.9. Sicrhau eu bod yn gwybod pa weithwyr sy'n gweithio gyda pheryglon arbennig a gwneud yn siŵr y darperir trefniadau cadw golwg a monitro iechyd ar eu cyfer yn unol â'r gofynion statudol.

2.4.10. Cefnogi, fel bo'r gofyn, yr holl grwpiau diogelwch/grwpiau gweithredu diogelwch o fewn y maes gwasanaeth a sicrhau bod rheolwyr yn cefnogi cynrychiolwyr diogelwch wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

2.4.11. Mewn cysylltiad â'r Uwch-ymgynghorydd/Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Diogelwch) o'r Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr, cadw'u hunain yn hyddysg o ran gofynion cyffredinol deddfwriaeth iechyd, diogelwch a llesiant a safonau sy'n berthnasol i'r gweithleoedd a'r gweithgareddau y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt.

2.4.12. Sicrhau bod rheolwyr yn rhoi gwybod ac yn ymgynghori â'r Is-adran Eiddo o ran unrhyw waith sylweddol sydd angen ei gyflawni ar yr eiddo y mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ei berchen neu'n ei ddefnyddio.

2.4.13. Sicrhau bod gweithwyr yn cael copi o'r polisi hwn a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu a'u cyfarwyddo'n briodol ar rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

### 2.5. 'Cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch' - Pennaeth Gwasanaeth Enwebedig

Yn ogystal â'i ddyletswyddau fel Pennaeth y Gwasanaeth, bydd yn:

2.5.1. Eiriolwr ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant yn yr adran ac yn cefnogi'r Cyfarwyddwr a'r Tîm Rheoli Adrannol i gyflawni'u cyfrifoldebau yn rhinwedd y polisi hwn.

2.5.2. Cael ei awdurdodi gan y Cyfarwyddwr i gynrychioli ac i wneud penderfyniadau addas ar gyfer yr adran yn y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

2.5.3. Gyda chymorth y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, cydgysylltu gweithrediad y gweithdrefnau a'r trefniadau rheoli ar gyfer iechyd, diogelwch a llesiant ar draws yr adran.

2.5.4. Monitro a chefnogi cynnydd tuag at fodloni'r amcanion iechyd, diogelwch a llesiant a sefydlwyd yn y Cynllun Busnes Adrannol.

2.5.5. Sicrhau bod materion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant yn cael sylw dyladwy gan y Tîm Rheoli Adrannol wrth ddatblygu polisïau ac wrth glustnodi cyfrifoldebau ac adnoddau.

2.5.6Sicrhau bod grwpiau cyfathrebu ac ymgynghori addas yn cael eu cynnal o fewn eu his-adran ar bob lefel sy'n cynnwys cynrychiolwyr undebau a chynrychiolwyr nad ydynt yn undebau.

### 2.6. Uwch-reolwyr, Rheolwyr Llinell, Arweinyddion Tîm a Goruchwylwyr

Mae'r holl Uwch-reolwyr, Rheolwyr Llinell, Arweinwyr Tîm a Goruchwylwyr yn gyfrifol am weithrediad effeithiol gweithdrefnau a threfniadau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant o fewn y meysydd y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt. Byddant yn:

2.6.1. Sicrhau bod unrhyw beryglon sy'n ymwneud â gwaith sydd yn gysylltiedig â'r gweithleoedd a'r gweithgareddau y mae ganddynt gyfrifoldeb drostynt yn cael eu nodi a bod asesiadau risg addas a digonol ar gael.

2.6.2. Cefnogi staff wrth gwblhau asesiadau risg a sicrhau bod yna fesurau rheoli dynodedig yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

2.6.3. Sicrhau bod pob gweithiwr y maen nhw'n gyfrifol amdano yn cael hyfforddiant, cyfarwyddyd, goruchwyliaeth a gwybodaeth ddigonol i ganiatáu iddo weithio'n ddiogel.

2.6.4. Cofnodi ac ymchwilio, yn unol â'r canllawiau a'r gweithdrefnau perthnasol, i unrhyw ddamweiniau, salwch galwedigaethol neu ddigwyddiadau peryglus.

2.6.5. Sicrhau bod pob gweithiwr sydd wedi cael anaf wrth ei waith yn cael ei gyfeirio at y Ganolfan Iechyd Galwedigaethol.

2.6.6. Nodi gwendidau iechyd a diogelwch o fewn y maes y mae ganddynt gyfrifoldeb drosto a chymryd camau unioni addas, gan ofyn am gyngor lle bo angen gan unigolion cymwys o'r Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr ac Eiddo (fel sy'n briodol). Lle mae pryderon sylweddol a phryderon sydd yn parhau wedi'u nodi, sicrhau bod y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, Pennaeth Gwasanaeth Enwebedig, Cynrychiolydd Iechyd, Diogelwch a Llesiant a'r Cyfarwyddwr yn cael gwybod.

2.6.7. Cydweithredu'n llawn ag awdurdodau gorfodi (e.e. yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Awdurdod Tân) a'u harolygwyr o ran unrhyw ymholiadau ac ymchwiliadau, mewn cydgysylltiad â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

2.6.8. Sicrhau bod cyfarpar, peiriannau a sylweddau peryglus yn cael eu defnyddio, eu cadw a'u cludo yn unol â'r hyfforddiant, cyfarwyddiadau, safonau / gofynion cyfreithiol perthnasol.

2.6.9. Sicrhau bod cyfarpar a pheiriannau yn cael eu cynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, gofynion y gwasanaeth ac arolygiadau statudol.

2.6.10. Sicrhau yr ymgynghorir â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (lle bo'n briodol) a'r Is-adran Eiddo wrth gynllunio gwaith adeiladu neu brosiectau, yr ystyrir eu cyflawni ar eiddo sy'n berchen i Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor.

2.6.11. Cefnogi cynrychiolwyr diogelwch wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau.

2.6.12. Sicrhau bod gweithwyr yn cael copi o'r polisi hwn a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu a'u cyfarwyddo'n briodol ar rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

### 2.7. Gweithwyr

Mae’n rhaid i weithwyr gymryd gofal rhesymol am eu hiechyd, diogelwch a llesiant eu hunain a hefyd iechyd, diogelwch a llesiant eraill a rhaid iddynt gydweithredu’n llwyr â'r rheolwyr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant. Yn benodol, rhaid i weithwyr:

2.7.1. Peidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir, na’i gamddefnyddio, er lles iechyd a diogelwch.

2.7.2. Rhoi gwybod am unrhyw gyflwr meddygol a allai olygu nad ydynt yn ffit i wneud unrhyw weithgaredd penodol, neu eu bod o dan fwy o risg wrth wneud gweithgaredd penodol, a hynny naill ai dros dro neu’n barhaol.

2.7.3. Mynychu cyrsiau hyfforddiant diogelwch pan ofynnir iddynt wneud hynny.

2.7.4. Cynorthwyo rheolwyr i asesu a rheoli risgiau.

2.7.5. Defnyddio cyfarpar (yn cynnwys cyfarpar diogelu personol), peiriannau neu sylweddau peryglus yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r hyfforddiant.

2.7.6. Rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau, neu ddigwyddiadau neu amodau peryglus cyn gynted ag sy'n bosibl wrth eu rheolwr a mynnu triniaeth cymorth cyntaf ar gyfer unrhyw anaf a gafwyd wrth weithio.

2.7.7. Cydweithredu'n llawn ag unrhyw ymchwiliad i iechyd a diogelwch yn eu gweithle.

2.7.8. Ymgyfarwyddo â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol a systemau gweithio diogel perthnasol, a chydymffurfio â nhw. Byddant hefyd yn rhoi gwybod i’w rheolwr llinell am eu hanghenion o ran hyfforddiant diogelwch.

Dylai pob gweithiwr, yn cynnwys rheolwyr, nodi y gallai esgeuluso’u cyfrifoldebau’n ddifrifol neu’n ddi-hid arwain at ddefnyddio’r drefn ddisgyblu. Dylai unigolion nodi hefyd y gallent gael eu herlyn yn bersonol pe bai troseddau iechyd a diogelwch difrifol yn cael eu cyflawni am iddyn nhw gydsynio i hynny neu ei oddef.

Lle mae pryderon am y ffordd y rhoddir gwybod am gamymddygiad difrifol i’r rheolwyr llinell, tynnir sylw’r gweithiwr at Bolisi ‘Datgelu Camarfer’ Cyngor Sir Caerfyrddin.

2.7.9. Sicrhau eu bod yn ymwybodol o rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn.

### 2.8. Cynrychiolwyr Diogelwch

Rhaid penodi cynrychiolwyr diogelwch i gynrychioli’r gweithwyr o ran iechyd, diogelwch a llesiant yn unol â Rheoliadau Cynrychiolwyr Diogelwch a Phwyllgor Diogelwch 1977 (fel y’u diwygiwyd) a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghori â Gweithwyr) 1996.

Yn ogystal â chynrychioli’r gweithwyr o ran pob mater yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant bydd amser a chyfleustra’n cael ei ganiatáu i’r cynrychiolwyr gyflawni'r canlynol: -

2.8.1. Archwilio’r gweithle am beryglon o bryd i’w gilydd, ymchwilio i gwynion a geir gan staff a chyflwyno sylwadau i’r cyflogwr ar faterion yn deillio o’r uchod ac ar faterion cyffredinol yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant unrhyw weithiwr yn y gwaith.

2.8.2. Cynrychioli gweithwyr mewn ymgynghoriadau yn y gweithle gydag unrhyw Arolygydd o’r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, neu o unrhyw awdurdod gorfodi arall, mewn perthynas â materion iechyd a diogelwch sy’n effeithio ar unrhyw weithiwr. Gall y cynrychiolydd gael gwybodaeth hefyd gan yr Arolygydd yn unol â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974.

2.8.3. Mynychu cyfarfodydd o grwpiau iechyd, diogelwch a llesiant penodol sy’n berthnasol i’w swyddogaeth.

# 3. CYFRIFOLDEBAU MEWN YSGOLION

### 3.1. Llywodraethwyr Ysgol

Rhaid i Lywodraethwyr Ysgol ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig ac ysgolion gwirfoddol a reolir:

3.1.1. Sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth diogelwch a sicrhau bod y Pennaeth yn ymwybodol o Bolisi Iechyd a Diogelwch yr awdurdod a'i fod yn ei weithredu.

3.1.2. Rhoi ystyriaeth ddigonol i iechyd a diogelwch wrth ddatblygu, diwygio a darparu polisïau ysgol, ac wrth ddyrannu cyfrifoldebau ac adnoddau cysylltiedig.

3.1.3. Sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch yn benodol ar gyfer yr ysgol yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n effeithiol.

3.1.4. Sicrhau bod y Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant enghreifftiol ar gyfer Ysgolion (neu bolisi cyfwerth) yn cael ei ddatblygu a'i weithredu gan y Pennaeth.

3.1.5. Cydweithredu â chyngor a chyfarwyddiadau Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â materion iechyd, diogelwch a llesiant neu sefydlu a mabwysiadu mesurau eraill sydd yr un mor effeithiol.

3.1.6. Sicrhau yr ymgynghorir â'r Adran Addysg, y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (lle bo'n briodol) a'r Is-adran Eiddo wrth gynllunio gwaith adeiladu neu brosiectau, yr ystyrir eu cyflawni ar eiddo sy'n berchen i Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor.

3.1.7. Ymgynghori'n briodol â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ar faterion sy'n effeithio ar iechyd, diogelwch a llesiant pob unigolyn yn ystod y cam cynllunio a chynnwys unrhyw fesurau angenrheidiol i reoli risgiau.

### 3.2. Penaethiaid

Mewn cysylltiad â'r corff llywodraethu, rhaid i benaethiaid sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant gweithwyr, disgyblion ac eraill y gallai safle neu weithgareddau'r ysgol effeithio arnynt. Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am reoli'r ysgol o ddydd i ddydd, a dylai:

3.2.1. Sicrhau bod Polisi Iechyd, Diogelwch a Llesiant Enghreifftiol yr awdurdod (neu ddogfen gyfatebol) yn cael ei datblygu a'i gweithredu mewn modd effeithiol, a bod gofynion y polisi hwnnw'n cael eu rhannu â'r holl unigolion perthnasol.

3.2.2. Sicrhau bod risgiau wedi'u nodi a'u cofnodi.

3.2.3. Sicrhau y cyflwynir trefniadau rheoli lleol a threfniadau ymateb i argyfwng (e.e. y weithdrefn wacáu mewn tân) sy'n rheoli'n effeithiol risgiau cysylltiedig â safleoedd neu weithgareddau ysgolion. Dylai'r rhain fod yn destun adolygiad achlysurol er mwyn sicrhau bod yr holl fesurau rheoli risg yn parhau'n effeithiol.

3.2.4. Sicrhau yr ymgynghorir â'r Adran Addysg, y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (lle bo'n briodol) a'r Is-adran Eiddo wrth gynllunio gwaith adeiladu neu brosiectau, yr ystyrir eu cyflawni ar eiddo sy'n berchen i Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor.

3.2.5. Sicrhau bod safleoedd ysgolion yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel, yn unol â gofynion a gweithdrefnau Cyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â gwerthuso a phenodi contractwyr.

3.2.6 Sicrhau mai dim ond contractwyr cymwys sy'n cael eu cyflogi a bod eu gwaith yn cael ei fonitro a'i oruchwylio'n addas i sicrhau eu bod yn cyflawni'u cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn briodol, ar y cyd â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

3.2.7. Cydweithredu â'r gofynion, y canllawiau neu'r cyfarwyddiadau a roddir gan yr awdurdod ynglŷn â materion iechyd a diogelwch.

3.2.8. Bod yn Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle ar gyfer safle'r ysgol.

3.2.9. Enwebu aelod o'r tîm rheoli sy'n meddu ar awdurdod digonol i gymryd y prif gyfrifoldeb ar gyfer iechyd a diogelwch gweithredol. Bydd gan yr aelod enwebedig o'r tîm rheoli yr amser, yr adnoddau a'r gallu i gyflawni'r rôl a rhoi ar waith drefniadau iechyd, diogelwch a llesiant priodol.

3.2.10. Sicrhau bod pob aelod staff yn cael hyfforddiant, cyfarwyddyd a goruchwyliaeth ddigonol i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau a'i waith yn ddiogel.

3.2.11. Bod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf, codau ymarfer, arferion diwydiannol gorau, a'r gwasanaethau ymgynghorol (e.e. Consortiwm Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gwyddoniaeth [CLEAPPSS] a gweithdrefnau corfforaethol ac adrannol.

3.2.12. Darparu rheolaeth ac arweinyddiaeth weledol o ran iechyd a diogelwch er mwyn sicrhau diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.

3.2.13. Sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn elfen graidd ym mhob cyfarfod a, lle mae angen, sefydlu grŵp iechyd, diogelwch a llesiant lleol.

3.2.14. Sicrhau bod pob perygl yn gysylltiedig â gweithleoedd a gweithgareddau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn cael eu nodi a bod asesiadau risg addas a digonol ar waith.

3.2.15. Sicrhau bod y poster "Cyfraith Iechyd a Diogelwch – Beth sydd angen i chi ei wybod" neu'r daflen sy'n cyd-fynd ag ef ar gael i'r gweithwyr.

3.2.16. Sicrhau y gweithredir ar bob diffyg a nodir ac sy'n cael ei ddwyn i'w sylw, a hynny mewn modd priodol ac o fewn cyfnod priodol o amser.

3.2.17. Ymgynghori a gweithio gyda Chynrychiolwyr Diogelwch Undebau Llafur / Cynrychiolwyr Gweithwyr a Phwyllgorau Diogelwch cydnabyddedig.

3.2.18. Sicrhau bod gweithwyr yn cael copi o'r polisi hwn a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu a'u cyfarwyddo'n briodol ar rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

### 3.3. Penaethiaid Adran

Mae Penaethiaid Adran yn gyfrifol am roi trefniadau iechyd, diogelwch a llesiant ar waith yn effeithiol yn y meysydd maent yn gyfrifol amdanynt. Rhaid iddynt felly:

3.3.1. Dyrannu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch priodol i reolwyr llinell a goruchwylwyr, gan sicrhau eu bod wedi eu deall a'u bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

3.3.2. Bod yn ymwybodol o'r newidiadau deddfwriaethol diweddaraf, codau ymarfer, arferion diwydiannol gorau, gwasanaethau ymgynghorol (e.e. Consortiwm Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gwyddoniaeth [CLEAPPSS] a gweithdrefnau corfforaethol ac adrannol.

3.3.3. Sicrhau bod pob perygl yn gysylltiedig â gweithleoedd a gweithgareddau y maen nhw'n gyfrifol amdanynt yn cael eu nodi a bod asesiadau risg addas a digonol ar waith.

3.3.4. Sicrhau bod mesurau rheoli risg a nodir trwy asesiad risg yn cael eu gweithredu, a monitro eu heffeithiolrwydd.

3.3.5. Monitro perfformiad iechyd a diogelwch gweithwyr a chontractwyr.

3.3.6. Sicrhau bod pob gweithiwr y maen nhw'n gyfrifol amdano yn cael hyfforddiant, cyfarwyddyd, goruchwyliaeth a gwybodaeth ddigonol i ganiatáu iddo weithio'n ddiogel.

3.3.7. Sicrhau bod pob damwain, salwch wedi ei achosi gan waith, a digwyddiadau peryglus yn cael eu cofnodi ac yr ymchwilir iddynt yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol.

3.3.8. Cydweithredu'n llawn â'r awdurdodau gorfodi, mewn cydgysylltiad â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (e.e. Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Awdurdod Tân) a'u harolygwyr, mewn perthynas ag unrhyw ymholiadau ac ymchwiliadau.

3.3.9. Sicrhau mai dim ond contractwyr cymwys sy'n cael eu cynnwys a bod eu gwaith yn cael ei fonitro a'i oruchwylio'n briodol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau iechyd a diogelwch yn briodol, ar y cyd â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

3.3.10. Sicrhau bod yr holl offer, cyfarpar, cyfarpar diogelu personol a dyfeisiau diogelwch eraill yn cael eu cynnal, eu hatgyweirio a'u cyfnewid am rai newydd fel sy'n angenrheidiol.

3.3.11. Sicrhau bod yr holl brofion statudol a phrofion priodol eraill yn cael eu cynnal ar gyfarpar bob hyn a hyn fel sy'n briodol a chadw cofnod addas o'r profion.

3.3.12. Nodi gwendidau iechyd a diogelwch o fewn y maes y mae ganddynt gyfrifoldeb drosto a chymryd camau unioni, gan ofyn am gyngor gan unigolion cymwys o fewn y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a Swyddogion o'r Is-adran Eiddo, fel bydd angen. Lle mae pryderon sylweddol a phryderon sydd yn parhau wedi'u nodi, sicrhau bod y Pennaeth, y Corff Llywodraethu neu'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn cael gwybod.

3.3.12. Sicrhau bod gweithwyr yn cael copi o'r polisi hwn a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu a'u cyfarwyddo'n briodol ar rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys ynddo.

### 3.4. Gweithwyr (Staff Addysgu a Staff Arall)

Mae'n rhaid i weithwyr gymryd gofal rhesymol am eu hiechyd, diogelwch a llesiant eu hunain a hefyd iechyd, diogelwch a llesiant eraill a rhaid iddynt gydweithredu'n llwyr â'r rheolwyr ar faterion iechyd, diogelwch a llesiant. Yn benodol, rhaid i weithwyr:

3.4.1. Peidio ag ymyrryd ag unrhyw beth a ddarperir, na'i gamddefnyddio, er budd iechyd, diogelwch a llesiant.

3.4.2. Rhoi gwybod am unrhyw gyflwr meddygol a allai olygu nad ydynt yn ffit i wneud unrhyw weithgaredd penodol, neu eu bod o dan fwy o risg wrth wneud gweithgaredd penodol, a hynny naill ai dros dro neu'n barhaol.

3.4.3. Mynychu cyrsiau hyfforddiant diogelwch pan ofynnir iddynt wneud hynny.

3.4.4. Cynorthwyo rheolwyr i asesu a rheoli risgiau.

3.4.5. Defnyddio cyfarpar (yn cynnwys cyfarpar diogelu personol), peiriannau neu sylweddau peryglus yn unol â'r cyfarwyddiadau a'r hyfforddiant.

3.4.6. Rhoi gwybod am unrhyw ddamweiniau, neu ddigwyddiadau neu amodau peryglus wrth eu rheolwr a mynnu triniaeth cymorth cyntaf ar gyfer unrhyw anaf a gafwyd wrth weithio.

3.4.7. Cydweithredu ag unrhyw ymchwiliad i iechyd a diogelwch yn eu gweithle.

3.4.8. Gwneud eu hunain yn gyfarwydd â'r polisïau iechyd a diogelwch, y camau gweithredu a'r systemau gweithio diogel perthnasol a chydymffurfio â nhw. Byddant hefyd yn rhoi gwybod i'w rheolwr llinell am eu hanghenion o ran hyfforddiant diogelwch.

Dylai pob gweithiwr, yn cynnwys rheolwyr, nodi y gallai esgeuluso'u cyfrifoldebau'n ddifrifol neu'n ddi-hid arwain at ddefnyddio'r drefn ddisgyblu. Dylai unigolion nodi hefyd y gallent gael eu herlyn yn bersonol pe bai troseddau iechyd, diogelwch a llesiant difrifol yn cael eu cyflawni am iddyn nhw gydsynio i hynny neu ei oddef.

Lle mae pryderon am y ffordd y rhoddir gwybod am gamymddygiad difrifol i'r rheolwyr llinell, tynnir sylw'r gweithiwr at Bolisi 'Datgelu Camarfer' Cyngor Sir Caerfyrddin.

3.4.9. Sicrhau eu bod yn ymwybodol o rolau a chyfrifoldebau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y polisi hwn.

# 4. CYFRIFOLDEBAU CORFFORAETHOL

## 4.1. Cyfrifoldebau sy'n Gysylltiedig ag Eiddo

Er mwyn sicrhau bod yr holl safleoedd sy’n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin neu’n cael eu defnyddio ganddo mewn cyflwr addas a diogel, rhaid i’r Cyngor:

4.1.1. Sicrhau bod strategaethau, adnoddau a threfniadau rheoli addas yn cael eu datblygu a'u cynnal yn effeithiol ar gyfer Tân, Asbestos, Legionella a Radon, i nodi ac egluro yn glir y rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer yr agweddau penodol hyn ar risgiau sy'n gysylltiedig ag eiddo.

4.1.2. Sicrhau bod risgiau i eiddo yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol a digonol.

4.1.3. Sicrhau bod canfyddiadau'r holl asesiadau risg, arolygon, archwiliadau, ac unrhyw ddogfennaeth berthnasol eraill yn cael eu cofnodi a'u cyfathrebu i'r holl unigolion perthnasol, gan gynnwys y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol a Phersonau sy'n Gyfrifol am Safle.

4.1.4. Nodi a chyfathrebu'n glir y cyfrifoldeb dros weithredu camau adfer.

4.1.5. Sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i roi trefniadau ar waith sy’n sicrhau rheolaeth effeithiol dros risgiau yn gysylltiedig â safleoedd.

4.1.6. Sicrhau bod safleoedd yn addas ac yn ddigonol at y diben yr ydym yn eu defnyddio ac yn hygyrch i bawb.

4.1.7. Sicrhau bod trefniadau cynnal a chadw eiddo digonol ar waith.

4.1.8. Sicrhau proses ymgynghori a chyfathrebu effeithiol â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ac unigolion perthnasol eraill ynghylch materion sy'n berthnasol i eiddo.

4.1.9. Hysbysu Unigolion sy’n Gyfrifol am Safle o’u cyfrifoldebau a’u dyletswyddau statudol i sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac yn unol â'r ddogfen ‘Côd Ymarfer i Unigolion Cyfrifol am Safle’.

4.1.10. Darparu cyngor, arweiniad, a lle bo'n briodol, hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud ag eiddo, mewn cydgysylltiad â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

4.1.11. Sicrhau bod safleoedd yn cael eu dylunio, eu hadeiladu, eu huwchraddio a’u cynnal yn unol â’r gofynion statudol a deddfwriaethol perthnasol.

4.1.12. Sicrhau bod systemau a threfniadau rheoli risg eiddo addas a digonol yn cael eu datblygu, eu gweithredu a’u cynnal yn effeithiol.

4.1.13. Sicrhau bod risgiau’n gysylltiedig ag adeiladwaith a chyflwr ein heiddo yn cael eu nodi a sefydlu rhestr o fesurau, yn nhrefn blaenoriaeth, i ymdrin â’r risgiau hyn.

4.1.14. Sicrhau bod eiddo'n cael arolygon cyflwr cyn eu caffael a'u gwaredu er mwyn i'n rhwymedigaethau statudol gael eu cyflawni.

4.1.15. Sicrhau bod cofrestrau sy'n berthnasol i eiddo yn cael eu llunio, eu cynnal a'u diweddaru gan gynnwys cofnodi Unigolion sy'n Gyfrifol am Safle.

4.1.16. Sicrhau bod materion Iechyd a Diogelwch yn cael sylw priodol wrth ystyried gwaith sydd i'w gyflawni o gyllidebau cynnal a chadw'r adeiladau. Petai'r gyllideb gynnal a chadw yn dirwyn i ben neu'n annigonol, rhaid i'r Tîm Rheoli Adrannol ystyried sut i fynd i'r afael â'r gwaith.

## 4.2. Rheoli Risg

Mewn cysylltiad ag unigolion perthnasol, bydd yr Uned Rheoli Risg yn:

4.2.1. Hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o drefniadau rheoli risg digonol a chyfrannu tuag at sicrhau bod trefniadau o'r fath yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u cynnal.

4.2.2. Sefydlu a chynnal Grŵp Llywio Rheoli Risg, Grŵp Eiddo ac Atebolrwydd a'r Grŵp Rheoli Risg Ffordd - Trafnidiaeth.

4.2.3. Helpu gydag adnoddau trwy gefnogi ceisiadau i'r Gronfa Rheoli Risg, i alluogi'r awdurdod i reoli risgiau iechyd a diogelwch yn effeithiol, lleihau costau yswiriant, lliniaru rhwymedigaethau a sicrhau cydymffurfio â dyletswyddau statudol a safonau rheoli.

4.2.4. Cydgysylltu â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ar faterion rheoli risg iechyd a diogelwch megis hawliadau anafiadau personol ac arolygon statudol.

## 4.3. Caffael Corfforaethol

4.3.1. Rhaid i'r Uned Caffael Corfforaethol sicrhau bod yr holl drefniadau wedi'u sefydlu fel bod modd rhoi ystyriaeth ddyladwy i iechyd a diogelwch yn y broses gaffael.

4.3.2. Os nad Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod arweiniol mewn trefniant cydweithio gyda phartneriaid eraill, dim ond os bydd yn weddol fodlon bod materion iechyd a diogelwch wedi cael sylw digonol y bydd yr awdurdod yn ymrwymo i'r trefniant.

4.3.3. Cydgysylltu â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ynghylch agweddau iechyd a diogelwch o'r broses gaffael.

## 4.4. Rheoli Fflyd

Mewn cysylltiad ag unigolion perthnasol, bydd Uned Rheoli Fflyd y Cyngor yn:

4.4.1. Sicrhau bod trefniadau ar waith i roi ystyriaeth ddyladwy i iechyd a diogelwch wrth ddewis, defnyddio a chynnal a chadw cerbydau'r fflyd, mewn cydgysylltiad â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol.

4.4.2. Sicrhau bod Cyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Llinell yn ymwybodol o'u dyletswyddau fel sydd wedi nodi yn y Polisi Risg Ffyrdd ar Gyfer Fflyd y Cyngor.

4.4.3. Sicrhau diogelwch holl yrwyr y fflyd drwy helpu i hyrwyddo a darparu hyfforddiant effeithiol i'r gyrwyr.

4.4.4. Darparu cyngor ac arweiniad i Benaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Llinell ar ddatblygu, gweithredu a chynnal trefniadau rheoli Risg Ffordd Galwedigaethol.

4.4.5. Sicrhau bod cynrychiolydd yn mynychu'r Grŵp Rheoli Risg Ffordd - Trafnidiaeth.

## 4.5. Cynllunio Argyfwng / Dilyniant Busnes / Argyfyngau Sifil

Bydd yr is-adrannau cynllunio argyfwng / dilyniant busnes / argyfyngau sifil yn sicrhau'r canlynol:

4.5.1. Rhoi ystyriaeth ddyladwy i faterion iechyd, diogelwch a llesiant wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu cynlluniau ac ymatebion.

### 4.6 Unigolion sy'n Gyfrifol am Safle

Bydd yr Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle yn sicrhau bod risgiau'n gysylltiedig â chyflwr ein safleoedd a'r defnydd ohonynt yn cael eu rheoli'n ddigonol. Rhaid felly i Unigolion sy'n Gyfrifol am Safle:

4.6.1. Sicrhau nifer addas o Gynorthwywyr ar gyfer y rôl Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle, digon ar gyfer maint, ystod a nifer staff i ymgymryd â dyletswyddau gweithredol.

4.6.2. Sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â defnydd o'r safle gan ein gweithwyr a phersonau eraill, e.e. ymwelwyr, yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u rheoli.

4.6.3. Sicrhau bod hyfforddiant 'Unigolyn sy'n Gyfrifol am Safle' yn cael ei ddarparu.

4.6.4. Sicrhau yr ymgynghorir â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol (lle bo'n briodol) a'r Is-adran Eiddo wrth gynllunio gwaith adeiladu neu brosiectau, yr ystyrir eu cyflawni ar eiddo sy'n berchen i Gyngor Sir Caerfyrddin neu'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor.

4.6.5. Sicrhau bod y dyletswyddau a nodir yn y ddogfen 'Côd Ymarfer i Unigolion sy'n Gyfrifol am Safle' yn cael eu rhoi ar waith.

## 5. SWYDDOGAETHAU CYMORTH IECHYD, DIOGELWCH A LLESIANT

### 5.1. Rheolwr Llesiant Gweithwyr

Bydd y Rheolwr Llesiant Gweithwyr yn cynorthwyo'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) i gyflawni'u cyfrifoldebau iechyd, diogelwch a llesiant ac yn arbennig rhaid iddo:

5.1.1. Sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau iechyd a diogelwch corfforaethol yn cael eu cynhyrchu a'u hyrwyddo er mwyn sicrhau dull effeithiol a chyson tuag at reoli iechyd, diogelwch a llesiant ledled yr awdurdod.

5.1.2. Sicrhau bod gan yr awdurdod fynediad i gymorth, cyngor, arweiniad a hyfforddiant priodol a digonol o ran rheoli iechyd a diogelwch.

5.1.3. Hyrwyddo iechyd a llesiant da ymhlith gweithwyr, drwy wasanaethau llesiant gweithwyr, ac wrth godi ymwybyddiaeth o ffyrdd o fyw iach a hyrwyddo mentrau iechyd.

5.1.4. Sicrhau bod adnoddau digonol a chymwys ar gael o ran Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch Corfforaethol a datblygiad Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch sy'n cefnogi lleihau risg ac yn gwella'r modd y mae iechyd a diogelwch yn cael eu rheoli ledled yr awdurdod.

5.1.5. Darparu adnoddau digonol ac unigolion cymwys yn y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol er mwyn ymgymryd â monitro iechyd ein gweithwyr yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

5.1.6. Cynorthwyo a darparu cyngor arbenigol mewn modd effeithiol i reolwyr ynglŷn â rheoli afiechyd neu salwch, mewn cysylltiad â Gwasanaethau Pobl.

5.1.7. Sicrhau bod Timau Rheoli Adrannol yn cael eu cefnogi i ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau a chanllawiau iechyd, diogelwch a llesiant adrannol yn effeithiol.

5.1.8. Cyd-drefnu'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau adrodd ar gyfer damweiniau, digwyddiadau a salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith a'u defnyddio'n effeithiol. Defnyddio'r wybodaeth hon i nodi tueddiadau a darparu adroddiadau ar hynny, gan argymell camau gweithredu i wella'r perfformiad iechyd, diogelwch a llesiant.

5.1.9. Cydgysylltu â'r Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, y blaenoriaethau o ran iechyd, diogelwch a llesiant ledled y Cyngor.

5.1.10. Mewn cysylltiad â’r Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl), sicrhau bod y perfformiad iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu ac y darperir adroddiad yn rheolaidd.

5.1.11. Rheoli y Gwasanaeth Llesiant Gweithwyr.

## 5.2. Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch)

Bydd Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch) yn arwain ac yn rheoli'r swyddogaeth iechyd a diogelwch a bydd yn:

5.2.1 Darparu trosolwg corfforaethol o reoli iechyd a diogelwch i bob adran drwy arwain ar iechyd a diogelwch mewn cyfarfodydd a fforymau allweddol i ddarparu cyngor iechyd a diogelwch cymwys.

5.2.2. Mynychu Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn cefnogi a darparu cyngor iechyd a diogelwch proffesiynol.

5.2.3. Dynodi adnoddau iechyd a diogelwch digonol yn unol â'r risg a'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Timau Rheoli Corfforaethol ac Adrannol.

5.2.4. Cefnogi Uwch-ymgynghorwyr/Ymgynghorwyr Strategol (Iechyd a Diogelwch) i ddatblygu cynlluniau gwaith Corfforaethol ac Adrannol yn unol â'r blaenoriaethau a nodwyd drwy asesu risg.

5.2.5. Datblygu, mewn cydgysylltiad â'r Tîm Rheoli Adrannol, rhaglen archwilio i fonitro effeithiolrwydd trefniadau rheoli iechyd a diogelwch.

5.2.6. Monitro a darparu adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch, o fewn yr awdurdod ac adrannau a meysydd gwasanaeth unigol.

5.2.7. Darparu'r arweiniad corfforaethol er mwyn cydgysylltu ag asiantaethau allanol ac awdurdodau gorfodi.

5.2.8. Sicrhau bod Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn cynnal cymwyseddau perthnasol drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

5.2.9. Datblygu a chynnal dull strategol cyflawn a chyson i reoli iechyd a diogelwch drwy ddatblygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau arfer gorau.

5.2.10. Gweithio mewn cydweithrediad â'r Partneriaid Busnes Arweiniol a'r Uwch-bartner Busnes yn yr Adain Rheoli Pobl ar brosiectau allweddol sydd â goblygiadau iechyd, diogelwch a llesiant.

## 5.3. Uwch-ymgynghorwyr/Ymgynghorwyr Strategol (Iechyd a Diogelwch)

Bydd Uwch-ymgynghorwyr/Ymgynghorwyr Strategol (Iechyd a Diogelwch) yn cael mynediad dirwystr i unrhyw weithleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnwys ysgolion, os byddant o’r farn bod hynny’n angenrheidiol i’r diben o gyflawni’u dyletswyddau.

Bydd Uwch-ymgynghorwyr/Ymgynghorwyr Strategol (Iechyd a Diogelwch) yn darparu cymorth fel y partner busnes i adrannau er mwyn sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant yn cael eu hystyried ar lefel strategol. Er mwyn gwneud hyn byddant yn:

5.3.1. Darparu cyngor ac arweiniad strategol i Gyfarwyddwyr, Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr, cynghorwyr, cyrff llywodraethu ac ati er mwyn iddynt ddeall yn glir eu rolau a'u cyfrifoldebau er mwyn rheoli iechyd a diogelwch yn y meysydd sy'n gyfrifoldeb iddynt.

5.3.2. Mabwysiadu a gweithredu system rheoli Iechyd a Diogelwch strwythuredig ledled yr adran.

5.3.3. Rhoi ar waith her busnes iechyd a diogelwch i sicrhau bod ystyriaethau iechyd a diogelwch o ran newid sefydliadol ac adrannol sydd wedi'i gynllunio yn cael ei ystyried.

5.3.4. Mynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli Adrannol a chyfarfodydd yr Uwch Dîm Rheoli yn gyson a chefnogi'r Tîm Rheoli Adrannol o ran ei ofynion statudol.

5.3.5. Darparu adroddiadau rheoli priodol er mwyn cefnogi'r broses o fonitro, adolygu a gwerthuso perfformiad o ran iechyd a diogelwch.

5.3.6 Sefydlu, diffinio a goruchwylio tasgau gyda'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch, gyda'r nod o gynorthwyo'r sefydliad i gadw at reoliadau iechyd, diogelwch a llesiant ac arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys cyngor, arweiniad a chraffu adeiladol sy'n canolbwyntio ar risg.

## 5.4. Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch

Bydd Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn cael mynediad dirwystr i unrhyw weithleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnwys ysgolion, os byddant o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i'r diben o gyflawni'u dyletswyddau.

Rhaid i Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch ddarparu cymorth a chyngor iechyd, diogelwch a llesiant i reolwyr a gweithwyr. Yn arbennig, rhaid i Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch:

5.4.1. Hyrwyddo'r arferion gorau a chydymffurfio â gofynion statudol a pholisïau neu safonau corfforaethol.

5.4.2. Darparu cyngor iechyd a diogelwch cymwys i Reolwyr a Gweithwyr ar;

5.4.2.1. Creu, gweithredu ac adolygu gweithdrefnau iechyd, diogelwch a llesiant a systemau rheoli diogelwch.

5.4.2.2. Asesu a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n gweithleoedd a'n gweithgareddau.

5.4.2.3. Sut y dehonglir gofynion cyfreithiol a safonau rheoli.

5.4.2.4. Monitro damweiniau, digwyddiadau peryglus a salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith, darparu adroddiadau arnynt ac ymchwilio iddynt.

5.4.2.5. Ynysu gweithleoedd neu gyfarpar o dan ein rheolaeth sydd un ai'n ddifrifol beryglus ar y pryd neu ar fin bod yn beryglus, a'u gwneud yn ddiogel.

5.4.3. Cynhyrchu, hyrwyddo a helpu i weithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau corfforaethol neu adrannol o ran iechyd, diogelwch a llesiant.

5.4.4. Monitro a darparu adroddiadau ar berfformiad iechyd a diogelwch, o fewn yr awdurdod ac o fewn adrannau a meysydd gwasanaeth unigol gan gynnwys:

5.4.4.1. Archwilio systemau rheoli i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ac â'r polisïau a'r safonau.

5.4.5. Sicrhau y rhoddir gwybod am ddamweiniau a digwyddiadau ac yr ymchwilir iddynt yn unol â'r gweithdrefnau rheoli, yn cynnwys:

5.4.5.1. Cynorthwyo rheolwyr wrth iddynt roi gwybod am ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt i sicrhau bod yr achosion gwaelodol yn dod yn amlwg.

5.4.5.2. Cefnogi rheolwyr adrannol i nodi anghenion hyfforddi iechyd a diogelwch mewn cydgysylltiad â'r Uwch-bartner Busnes (Gweithio'n Ddiogel).

5.4.6. Mynychu grwpiau iechyd, diogelwch a llesiant adrannol, meysydd gwaith a grwpiau eraill fel sy'n briodol a darparu adroddiadau a chynghori ynghylch perfformiad iechyd, diogelwch a llesiant

## 5.5. Uwch-bartner Busnes (Gweithio'n Ddiogel)

Bydd yr Uwch-bartner Busnes (Gweithio'n Ddiogel) yn:

5.5.2. Arwain y gwaith o gynllunio a darparu adnoddau ar gyfer Strategaeth Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch gynhwysfawr i'r awdurdod cyfan ynghyd â rhaglen hyfforddiant flynyddol sy'n adlewyrchu cymwyseddau iechyd a diogelwch gofynnol rheolwyr a staff yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, asesu risg, polisi, canllawiau, gweithdrefnau ac arferion da.

5.5.3. Ymgynghori â rheolwyr ar draws yr Awdurdod a darparu cyngor ynghylch rhaglenni hyfforddiant a datblygu Iechyd a Diogelwch priodol sy'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol, polisi, canllawiau, gweithdrefnau a'r gofynion arfer da cyfredol neu'n rhagori arnynt.

5.5.4. Cyfrannu at a chefnogi amcanion a blaenoriaethau strategol a gweithredol iechyd, diogelwch a llesiant fel y'u nodwyd ym Mholisi Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a'r trefniadau cefnogi, er mwyn lleihau'r risg i'r Awdurdod.

## 5.6. Hyfforddwyr Codi a Chario a Hyfforddwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Bydd Hyfforddwyr Codi a Chario a Hyfforddwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn darparu cymorth, hyfforddiant a chyngor am iechyd, diogelwch a llesiant. Yn benodol bydd Hyfforddwyr Codi a Chario a Hyfforddwyr Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn:

5.6.1. Paratoi a darparu hyfforddiant a chyngor iechyd a diogelwch cymwys ar ystod o bynciau mewn ymgynghoriad â'r Uwch-bartner Busnes (Gweithio'n Ddiogel) a'r Uwch-ymgynghorwyr/Ymgynghorwyr Strategol (Iechyd a Diogelwch).

5.6.2. Paratoi a darparu hyfforddiant pwrpasol er mwyn lleihau risgiau a nodwyd a gweithredu systemau rheoli a gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewn cydgysylltiad â Rheolwyr perthnasol.

## 5.7. Canolfan Iechyd Galwedigaethol

Rôl y Ganolfan Iechyd Galwedigaethol yw hyrwyddo a monitro iechyd a llesiant ein gweithwyr. Bydd y Ganolfan Iechyd Galwedigaethol yn:

5.7.1. Cynorthwyo Rheolwyr ac Ymgynghorwyr Adnoddau Dynol â'r canlynol:

5.7.1.1. Rheoli absenoldeb salwch ac achosion o ymddeol ar sail afiechyd.

5.7.1.2. Cynghori ynghylch ailsefydlu ac addasiadau rhesymol sy'n angenrheidiol i hwyluso'r ffordd i weithwyr ddychwelyd i'r gwaith, neu barhau i weithio.

5.7.1.3. Mewn cysylltiad â'r Ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch, riportio ac ymchwilio i salwch neu glefydau sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn unol â'r gweithdrefnau ac fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 2013.

5.7.1.4. Cymorth effeithiol a darparu cyngor arbenigol ynglŷn â rheoli salwch gweithwyr.

5.7.2. Ymgymryd â gwaith statudol i gadw golwg ar iechyd a gwaith sgrinio meddygol.

5.7.3. Cynorthwyo'r Rheolwr Llesiant Gweithwyr i fonitro a darparu adroddiadau ar berfformiad a gweithgareddau Iechyd Galwedigaethol.

5.7.4. Sicrhau bod pob trydydd parti sy'n gweithio gyda'r Ganolfan Iechyd Galwedigaethol yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a llesiant Cyngor Sir Caerfyrddin.

5.7.5. Rheoli cofnodion yn gysylltiedig â'u gweithgareddau yn unol â Deddf Mynediad at Gofnodion Meddygol 1988 a Deddf Mynediad at Gofnodion Iechyd 1990.

### 5.8. Cydlynwyr Iechyd a Llesiant

Bydd y Cydlynwyr Iechyd a Llesiant yn:

5.8.1 Arwain ar gynllun ledled yr Awdurdod ar gyfer hyrwyddo, addysgu a chefnogi llesiant gweithwyr drwy ddigwyddiadau, ymyriadau pwrpasol, gwybodaeth ac arweiniad.

5.8.2 Sicrhau bod Iechyd a Llesiant yn cael eu hintegreiddio mewn cynlluniau a digwyddiadau a chynnal Ymgyrchoedd Iechyd a Llesiant rheolaidd yn unol â Digwyddiadau Cenedlaethol ac anghenion busnes ac anghenion lleol.

5.8.3 Recriwtio a datblygu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Iechyd a Llesiant gwirfoddol ar draws yr Awdurdod.

## 6. CYFRIFOLDEBAU'R RHAI NAD YDYNT YN GYFLOGEDIG

Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydweithredu'n llawn â chyflogwyr eraill i sicrhau bod ein priod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu deall yn glir a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu'n effeithiol. Rhaid i gontractwyr, gweithwyr asiantaeth neu weithwyr partneriaeth gydymffurfio â'n trefniadau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â darparu adroddiadau ar ddigwyddiadau a damweiniau ac ymchwilio iddynt.

### 6.1. Gwirfoddolwyr

Wrth i wirfoddolwyr gynrychioli'r awdurdod, byddant yn;

6.1.1. Cael yr un amodau o ran offer (yn cynnwys cyfarpar diogelu personol), cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth ag y mae gweithwyr cyflogedig yn eu cael.

6.1.2. Sicrhau eu bod yn dilyn yr holl drefniadau a gweithdrefnau diogelwch er mwyn lleihau'r risg iddyn nhw eu hunan ac eraill y gallai eu gweithredoedd neu eu hanweithredoedd effeithio arnynt.

### 6.2. Unigolion sydd ar brofiad neu leoliad gwaith

Bydd gan unigolion sydd ar brofiad neu leoliad gwaith yr un cyfrifoldebau â gweithwyr cyflogedig. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn sicrhau bod ein trefniadau asesu risg a'n mesurau rheoli risg yn ystyried diffyg profiad neu aeddfedrwydd cymharol pobl ifanc.

### 6.3. Contractwyr, Gweithwyr Asiantaeth a Gweithwyr Partneriaeth

Mae gan gontractwyr, gweithwyr asiantaeth neu weithwyr partneriaeth sy'n gweithio yn ein sefydliad ni neu ar ran ein sefydliad gyfrifoldebau tebyg i'n gweithwyr ni.  Bydd yn ofynnol iddynt gydweithredu â ni i sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod polisïau'n cael eu deall yn glir a'u gweithredu.

# 7. CYFRIFOLDEBAU AR Y CYD

## 7.1. Cabinet

Bydd y Cabinet yn:

7.1.1. Sicrhau bod ei benderfyniadau a'i weithredoedd yn gyson â hyrwyddo iechyd, diogelwch a llesiant cadarnhaol fel yr eglurwyd yn ein datganiad polisi Iechyd a Diogelwch,

7.1.2. Rhoi ystyriaeth ddyladwy i faterion iechyd a diogelwch wrth ddatblygu holl bolisïau a strategaethau'r Cyngor Sir,

7.1.3. Sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth reolaidd am berfformiad iechyd a diogelwch Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Aelod Cabinet dros Reoli Pobl,

7.1.4. Sicrhau bod adnoddau ariannol digonol yn cael eu cynnwys yn y dyraniadau cyllideb blynyddol i alluogi Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni'i rwymedigaethau iechyd, diogelwch a llesiant statudol.

## 7.2. Y Tîm Rheoli Corfforaethol

Y Tîm Rheoli Corfforaethol sy'n gyfrifol drwyddi draw am sicrhau bod yr awdurdod yn cyflawni'i gyfrifoldebau o ran iechyd, diogelwch a llesiant. Felly, bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol yn;

7.2.1. Hyrwyddo diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol yn yr awdurdod drwy ddangos arweinyddiaeth glir o ran iechyd a diogelwch yn ein sefydliad.

7.2.2. Ymrwymo i gyrraedd safonau uchel o ran rheoli iechyd a diogelwch, rhoi cefnogaeth weithredol i'r rheolwyr i roi'r polisi ar waith ac annog cynnwys yr holl weithwyr.

7.2.3. Sicrhau bod polisïau a threfniadau iechyd a diogelwch corfforaethol yn cael eu datblygu a'u gweithredu'n gyson ar draws yr awdurdod.

7.2.4. Rhoi ystyriaeth ddyladwy i iechyd a diogelwch wrth ddatblygu polisïau a strategaethau a dyrannu cyfrifoldebau ac adnoddau cysylltiol.

7.2.5. Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i weithredu'r polisi hwn yn effeithiol ynghyd â threfniadau rheoli iechyd a diogelwch cysylltiedig.

7.2.6. Cael cofnodion y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ynghyd â phapurau briffio a diweddariadau rheolaidd ar faterion iechyd a diogelwch gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) fel yr eiriolwr enwebedig dros iechyd, diogelwch a llesiant.

7.2.7. Monitro perfformiad a chynnydd o ran iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

7.2.8. Sicrhau bod y perfformiad o ran iechyd a diogelwch yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bod adroddiad yn cael ei gyflwyno gan y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

## 7.3. Timau Rheoli Adrannol

Byddant yn:

7.3.1. Sicrhau bod rheoli iechyd, diogelwch a llesiant yn rhan annatod o'r holl gynlluniau rheoli, strategaethau a gweithgareddau adrannol.

7.3.2. Sicrhau bod yr Uwch-ymgynghorydd/Ymgynghorydd Strategol (Iechyd a Diogelwch) yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyfrannu drwy roi diweddariadau, arweiniad a chyngor ar y goblygiadau iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â newid adrannol.

7.3.3. Sicrhau, gyda chymorth y Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, fod polisïau a threfniadau iechyd a diogelwch cymwys yn cael eu gweithredu'n effeithiol ar draws yr adran.

7.3.4. Sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu darparu i gynnal a gweithredu'r polisïau a'r trefniadau iechyd a diogelwch yn effeithiol, gan gynnwys y rheiny sy'n ofynnol i ddarparu cyfarpar a hyfforddiant digonol ac i gynnal ein safleoedd a'n cyfleusterau.

7.3.5. Cael ac ystyried adroddiadau cyfnodol ar berfformiad iechyd a diogelwch er mwyn monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion iechyd a diogelwch yn y Cynllun Busnes Adrannol.

7.3.6. Sicrhau bod y perfformiad iechyd a diogelwch adrannol yn cael ei adolygu'n flynyddol ac ystyried canfyddiadau'r adroddiad er mwyn sefydlu amcanion a blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

7.3.7. Sicrhau eu bod yn cael gwybod am, a'u bod yn effro i faterion perthnasol yn ymwneud â rheoli risg i iechyd, diogelwch a llesiant a'u bod yn cael sylw priodol yn yr adran.

7.3.8. Cael cofnodion y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ynghyd â phapurau briffio a diweddariadau rheolaidd ar faterion iechyd a diogelwch gan Gynrychiolydd Iechyd a Diogelwch Adrannol (Pennaeth Gwasanaeth).

7.3.9. Cael cofnodion y Grŵp Iechyd a Diogelwch Adrannol.

7.4. Cyfarfodydd / Grwpiau Strwythuredig

Sicrhau bod y rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn effro i unrhyw agweddau iechyd, diogelwch a llesiant a allai godi o'r sialensiau a'r gwaith y maen nhw'n ei wneud, a rhoi ystyriaeth ddyladwy iddynt.

# 8 CYFATHREBU AC YMGYNGHORI

## 8.1. Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol

Bydd y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli ac arwain iechyd, diogelwch a llesiant ledled Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol yn:

8.1.1. Herio, hyrwyddo a monitro:

8.1.1.1. Polisïau a strategaethau iechyd, diogelwch a llesiant corfforaethol.

8.1.1.2. Trefniadau rheoli (h.y. gweithdrefnau a chanllawiau) sy'n golygu bod risg yn cael ei rheoli'n gyson ac yn effeithiol ledled yr awdurdod.

8.1.1.3. Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer rheoli iechyd, diogelwch a llesiant a blaenoriaethau ar gyfer yr awdurdod.

8.1.2. Ystyried yr adnoddau a'r trefniadau sy'n ofynnol i gyflwyno, gwella neu gynnal trefniadau rheoli iechyd, diogelwch a llesiant yn llwyddiannus.

8.1.3. Cyfarwyddo ffurfiad a chyfrifoldebau grwpiau gorchwyl a gorffen perthnasol yn ôl y gofyn.

8.1.4. Ystyried ac adolygu:

8.1.4.1. Adroddiadau ystadegol a data damweiniau/digwyddiadau gan gynnwys salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

8.1.4.2. Crynodeb am adroddiadau archwilio ac arolygu perthnasol.

8.1.4.3. Yr Adroddiad Perfformiad Iechyd, Diogelwch a Llesiant Corfforaethol,

8.1.5. Caiff y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ei gadeirio gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl). Dyma fydd aelodaeth y grŵp:

8.1.5.1. Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl) (Cadeirydd) Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (Yr ail i ddirprwyo yn absenoldeb y Prif Weithredwr Cynorthwyol).

8.1.5.2. Cynrychiolydd Iechyd a Diogelwch enwebedig (Pennaeth Gwasanaeth) o bob adran.

8.1.5.3. Partner Busnes Arweiniol (Iechyd a Diogelwch).

8.1.5.4. Aelod Cabinet (Rheoli Pobl).

8.1.6. Gall y Bwrdd Arwain Iechyd a Diogelwch Corfforaethol gyfethol unrhyw unigolyn â gwybodaeth arbenigol i'w gynorthwyo i gyflawni'i swyddogaethau.

## 8.2. Fforymau Cysylltiadau â Gweithwyr - Iechyd a Diogelwch

Bydd y grwpiau hyn yn:

8.2.1. Ymgynghori â phawb o'r staff, drwy eu cynrychiolwyr, ynglŷn â materion iechyd, diogelwch a llesiant i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei rhaeadru i'r holl staff y maen nhw'n eu cynrychioli.

8.2.2. Ystyried dogfennau ymgynghorol iechyd a diogelwch perthnasol.

8.2.3. Adolygu adroddiadau rheoli iechyd a diogelwch a data am ddamweiniau/digwyddiadau fel y bo'n briodol.

## 8.3. Cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Adrannol

Rhaid i'r cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch Adrannol adolygu'r risgiau a'r trefniadau rheoli cysylltiedig sy'n berthnasol i'r is-adran a rhaid iddynt yn benodol gyflawni'r canlynol:

8.3.1. Cynorthwyo i weithredu'r polisïau corfforaethol, gweithdrefnau a threfniadau rheoli, gan gynnwys datblygu trefniadau atodol fel sy'n ofynnol, a monitro hynny.

8.3.2. Cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau a threfniadau iechyd a diogelwch adrannol/is-adrannol i ymdrin yn ddigonol â'r risgiau iechyd a diogelwch yn yr adran.

8.3.3. Cynorthwyo i sefydlu amcanion iechyd, diogelwch a llesiant i'w cynnwys yn yr Adroddiadau Iechyd a Diogelwch Adrannol.

8.3.4. Ystyried yr adnoddau a'r trefniadau sy'n ofynnol i gyflwyno, gwella neu gynnal trefniadau rheoli iechyd a diogelwch yn llwyddiannus

8.3.5. Monitro ac adolygu:

8.3.5.1. Adroddiadau ystadegol a data am ddamweiniau / digwyddiadau yn cynnwys salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith er mwyn canfod tueddiadau ac argymell camau gweithredu.

8.3.5.2. Adroddiadau archwilio ac arolygu iechyd a diogelwch ac allbynnau o fecanweithiau monitro parhaus eraill.

8.3.6. Darparu cyfrwng ffurfiol i ymgynghori â gweithwyr, rheolwyr, undebau a chynrychiolwyr yr adran ynghylch materion iechyd, diogelwch a llesiant, yn benodol:

8.3.6.1 Cyflwyno polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch corfforaethol newydd neu ddiwygiedig.

8.3.6.2. Gwybodaeth a chyfarwyddiadau i weithwyr am risgiau iechyd a diogelwch a mesurau ataliol cysylltiol,

8.3.6.3. Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant iechyd a diogelwch ac ystyried ei ddigonolrwydd.

### 8.4. Grwpiau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth-Benodol neu ar Lefel Leol

Mae Grwpiau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth-Benodol neu ar Lefel Leol yn rhan o'r strwythur cyfathrebu Iechyd a Diogelwch a chânt eu defnyddio i ymgynghori ynghylch yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith, a'u hyrwyddo.

Bydd Grwpiau Iechyd a Diogelwch Gwasanaeth a Lleol yn hyrwyddo cydweithredu rhwng yr awdurdod a'i weithwyr ar yr holl faterion sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gwaith. Yn arbennig, bydd grwpiau o'r fath:

8.4.1. Yn cynorthwyo:

8.4.1.1. I roi polisïau corfforaethol, gweithdrefnau a threfniadau rheoli ar waith, gan gynnwys datblygu trefniadau atodol yn ôl yr angen.

8.4.1.2. I ddatblygu gweithdrefnau a threfniadau iechyd, diogelwch a llesiant gwasanaeth-benodol a lefel leol a'u rhoi ar waith er mwyn ymdrin yn ddigonol â risg i iechyd, diogelwch a llesiant.

8.4.1.3. I nodi meysydd lle gellid rheoli risg yn well a sefydlu amcanion iechyd, diogelwch a llesiant.

8.4.2.Monitro ac adolygu:

8.4.2.1. Adroddiadau ystadegol a data am ddamweiniau / digwyddiadau yn cynnwys salwch sy'n gysylltiedig â'r gwaith er mwyn canfod tueddiadau ac argymell camau gweithredu.

8.4.2.2. Adroddiadau archwilio ac arolygu iechyd a diogelwch ac allbynnau o fecanweithiau monitro parhaus eraill.

8.4.3. Darparu cyfrwng ffurfiol i ymgynghori â gweithwyr, undebau a chynrychiolwyr o fewn y gwasanaeth ynghylch materion iechyd, diogelwch a llesiant, yn benodol:

8.4.3.1. Nodi ffyrdd o ddatrys pryderon iechyd a diogelwch a nodir gan weithwyr.

8.4.3.2. Cyflwyno polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch newydd neu ddiwygiedig.

8.4.3.3. Gwybodaeth a chyfarwyddiadau i weithwyr am risgiau iechyd a diogelwch a mesurau ataliol cysylltiol.

8.4.3.4. Cynllunio a chyflwyno hyfforddiant iechyd a diogelwch ac ystyried ei ddigonolrwydd;

# 9 GWYBODAETH YCHWANEGOL

Os oes angen y wybodaeth arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Ganolfan Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol dros yr e-bost

## 10.CYFATHREBU AC YMGYNGHORI

